



**Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales**

**AROLWG 2013
O
ETHOLAETHAU
SENEDDOL
YNG NGHYMRO**

2011

LLYFRYN GWYBODAETH

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn
yn Gymraeg neu yn Saesneg

		Para	Tud
CYNNWYS			
PENNOD 1	CYFLWYNIAD		
	Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud	1	1
	Diben y llyfryn	6	1
	Manylion cyswllt	10	2
	Ffiniau etholiadol y DU nad yw'r Comisiwn yn gyfrifol amdanant	12	2
PENNOD 2	PARATOI AR GYFER YR AROLWG		
	Y data sylfaen ar gyfer Arolwg 2013	1	4
	Dosbarthiad etholaethau	3	4
	Pennu polisi a gweithdrefn	4	4
PENNOD 3	DATBLYGU CYNIGION – GOFYNION A PHOLISI		
	Amrediad etholwyr statudol	1	6
	Ffactorau statudol eraill	4	6
	Ystyriaethau daearyddol arbennig	5	6
	Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol	6	7
	Ffiniau etholaethau presennol	10	7
	Cydadwaith yr ystyriaethau	11	7
	Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried		
	Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol	14	8
	Ffiniau llywodraeth leol newydd	15	8
	Newidiadau i nifer etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg	16	8
	Enwi a dynodi etholaethau	17	8
	Enwi	18	9
	Dynodi	21	9
	Yr iaith Gymraeg	23	9
	Effaith y ddeddfwriaeth newydd	26	10
PENNOD 4	DATBLYGU CYNIGION – Y BROSES	1	11
	Cyhoeddi cynigion cychwynnol	3	11
	Cyfnod ymgynghori cychwynnol	8	12
	Cynrychiolaethau ysgrifenedig	11	12
	Gwrandawiaadau cyhoeddus	12	13
	Cyfnod ymgynghori eilaidd	22	14
	Datblygu cynigion diwygiedig	25	14
	Pwysigrwydd cyfranogi	28	15
	Argymhellion ac adroddiad terfynol	31	15

		Para	Tud
CYNNWYS			
PENNOD 5	AR ÔL YR ADRODDIAD TERFYNOL		
	Gweithdrefn seneddol	1	16
PENNOD 6	CASGLIAD	1	17
ATODIAD A	Cyfansoddiad y Comisiwn		18
ATODIAD B	Cyfeiriadau a rhifau ffôn y Comisiynau eraill		19
ATODIAD C	Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi		22
ATODIAD CH	Geirfa a byrfoddau		27
ATODIAD D	Etholaethau Seneddol a Nifer Etholwyr Presennol		30

Argraffwyd y Rhifyn 1^{af} ar Tachwedd 2011

Pennod 1: Cyflwyniad

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

1. Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn') yn gorff cyhoeddus anadrannol annibynnol a diduedd sy'n gyfrifol am adolygu ffiniau etholaethau Seneddol yng Nghymru. Disgrifir aelodau'r Comisiwn a swyddi allweddol eraill yn Atodiad A.
2. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal arolwg o'r holl etholaethau Seneddol yng Nghymru o bryd i'w gilydd. Mae'n cynnal arolwg ar hyn o bryd ar sail rheolau newydd a bennwyd gan y Senedd. Mae'r rheolau newydd yn golygu gostyngiad sylweddol yn nifer yr etholaethau yng Nghymru ac yn mynnu bod etholaethau'n cydymffurfio â pharamedrau newydd o ran nifer yr etholwyr ym mhob etholaeth.
3. Dylanwadir yn drwm ar broses yr arolwg gan ymgynghori cyhoeddus. Bydd y Comisiwn yn datblygu ac yn cyhoeddi cynigion cychwynnol ar gyfer etholaethau ledled Cymru. Wedyn caiff cynrychiolaethau gan y cyhoedd yn glŷn â'r cynigion hyn eu derbyn yn ysgrifenedig ac mewn gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru. Yn sgil yr holl farnau a fynegir yn glŷn â'r cynigion cychwynnol, gall y Comisiwn fynd ati i'w diwygio ac yna cynnal cylch pellach o ymgynghori ysgrifenedig ar y cynigion diwygiedig.
4. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn wneud adroddiad ffurfiol i'r Llywodraeth erbyn 1 Hydref 2013, yn argymhell unrhyw newidiadau yr ystyria eu bod yn briodol i ddsbarthiad, maint, ffurf, enw neu ddynodiad etholaethau yng Nghymru. Cyfeirir at yr arolwg trwy gydol y llyfryn hwn felly fel 'Arolwg 2013'.
5. Bydd y Llywodraeth yn cyflwyno Mesur ac, os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r ddeddfwriaeth, bydd y newidiadau argymelledig yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol nesaf ar ôl dyddiad pasio'r ddeddfwriaeth.

Diben y llyfryn

6. Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu'r llyfryn hwn i helpu esbonio sut fydd y broses ar gyfer Arolwg 2013 yn gweithio. Mae'r llyfryn yn ymdrin â'r hyn y dywed y gyfraith y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei wneud fel rhan o'r broses, a materion lle mae'r Comisiwn wedi penderfynu – fel mater o bolisi ar ei ddisgresiwn ei hun – i weithredu mewn dull penodol.
7. Mae'r llyfryn hwn yn nodi datganiad manwl a thechnegol o'r fframwaith statudol, proses yr arolwg a pholisïau'r Comisiwn o ran datblygu cynigion ac argymhellion terfynol.
8. Gobeithia'r Comisiwn, drwy esbonio'r broses a'r polisi fel hyn, y bydd y llyfryn yn annog y rheiny a all fod yn ystyried dweud eu barn ac yn helpu sicrhau y gall y

rheiny sy'n mynegi'u barn wneud hynny mewn modd gwybodus ac effeithiol. Nod y llyfryn felly yw:

- esbonio'n glir sut a pha bryd y gall y cyhoedd gyfrannu'u barnau, er mwyn llywio datblygu argymhellion terfynol y Comisiwn yn effeithiol; ac
- esbonio'r newidiadau arwyddocaol diweddar sydd wedi'u gwneud i'r gyfraith yn rheoli arolygon etholiadau Seneddol gan Ddeddf Systemau Pleidleisio ac Etholaethau 2011 ('Deddf 2011'). Caiff y gyfraith newydd effaith fawr ar y ffordd y bydd arolwg yn gweithredu, ac – i'r arolwg cyntaf hwn sy'n cymhwyso'r rheolau newydd – mae'n debygol o arwain at o leiaf rywfaint o newid i'r holl etholaethau presennol.

9. Fodd bynnag, nid yw'r llyfryn i fod yn ddatganiad llawn o'r gyfraith am yr arolwg ac aiddosbarthu etholaethau Seneddol. I weld datganiad diffiniol o'r gyfraith honno, cyfeiriwch at ddarpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Comisiynau Ffiniau 1992 a Deddf 2011) sydd ar gael yn www.legislation.gov.uk. Cyfeirir at Ddeddf 1986 (fel y'i diwygiwyd) trwy gydol gweddill y llyfryn hwn fel 'y Ddeddf' yn unig.

Manylion cyswllt

10. Gellir codi unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys y llyfryn hwn, neu unrhyw agwedd arall ar waith y Comisiwn, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt hyn:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
CAERDYDD
CF10 3BE

Rhif Ffôn: (029) 2039 5031
Rhif Ffacs: (029) 2039 5250
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk

11. Gallwch weld cylchlythyrau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, ac unrhyw wybodaeth arall am Arolwg 2013, ar wefan y Comisiwn.

Ffiniau etholiadol y DU nad yw'r Comisiwn yn gyfrifol amdanynt

12. Mae Comisiynau Ffiniau ar wahân ar gyfer Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ac maent yn gyfrifol am gynnal arolygon o etholaethau Seneddol yn eu rhannau priodol hwy o'r Deyrnas Unedig.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

13. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw gyfrifoldeb am adolygu ffiniau etholiadol llywodraeth leol nac arolygon strwythurol o lywodraeth leol. Yng Nghymru, mae'r cyfryw arolygon yn gyfrifoldeb Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, tra bod cyrff tebyg yn cynnal arolygon llywodraeth leol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.
14. Mae manylion cyswllt ar gyfer pob un o'r cyrff hyn i'w cael yn Atodiad B.

Pennod 2: Paratoi ar gyfer yr arolwg

Y data sylfaen ar gyfer Arolwg 2013

1. Mae'r Ddeddf yn amodi mai'r ffigurau etholwyr sydd i'w defnyddio ar gyfer arolwg yw'r rheiny a oedd yn y fersiwn o'r gofrestr etholwyr a gyhoeddwyd ar 'ddyddiad yr arolwg'. Diffinnir dyddiad yr arolwg gan y Ddeddf fel y dyddiad ddwy flynedd a deg mis cyn ei bod yn ofynnol i'r Comisiwn adrodd ar yr arolwg i'r Llywodraeth. Ar gyfer Arolwg 2013, mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid mai'r ffigurau etholwyr i'w defnyddio yw'r rheiny o'r cofrestr etholwyr yr oedd yn ofynnol eu cyhoeddi ar neu cyn 1 Rhagfyr 2010 (er y gallai rhai amgylchiadau arbennig yn wir fod wedi oedi cyhoeddi'r cofrestr). Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ar ei wefan holl ddata sylfaen etholaethwyr ar gyfer Arolwg 2013, a gellir gweld hwn yn Atodiad D.
2. Dywed y Ddeddf y gall y Comisiwn ystyried 'ffiniau llywodraeth leol' wrth ddatblygu ei gynigion. Mae'r Ddeddf yn diffinio'r cyfryw ffiniau yng Nghymru fel ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, adrannau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedau fel yr oeddent mewn grym ar ddiwrnod cyffredin ethol cynghorwyr mwyaf diweddar cyn dyddiad yr arolwg. Ar gyfer Arolwg 2013, mae hyn yn golygu mai'r ffiniau llywodraeth leol y cyfeirir atynt yw'r rheiny mewn grym ar 6 Mai 2010. Mae'r ffiniau llywodraeth leol y mae'r Comisiwn yn eu defnyddio ar gyfer Arolwg 2013 i'w gweld yn neunydd mapio BoundaryLine yr Arolwg Ordnans (fersiwn Hydref 2010).¹ Mae'r mapiau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chynigion y Comisiwn (ar ffurf copi caled ac ar wefan y Comisiwn) yn dangos y ffiniau llywodraeth leol perthnasol hefyd.

Dosbarthiad etholaethau

3. Mae'r Ddeddf bellach yn pennu gofyniad fod yna nifer penodedig 600 o etholaethau ar gyfer y DU gyfan.² Ar ôl datgan na ellir rhannu unrhyw un etholaeth rhwng rhannau gwahanol o'r DU,³ mae'r Ddeddf yn darparu fformwla fathemategol⁴ ar gyfer pennu faint o etholaethau y dylid eu dyrannu i bob un o bedair rhan y DU, yn seiliedig ar ffigurau'r etholwyr ar ddyddiad yr arolwg. Mae 30 o etholaethau wedi'u dyrannu i Gymru ar gyfer Arolwg 2013.

Pennu polisi a gweithdrefn

4. Wrth ystyried y gweithdrefnau ar gyfer arolwg, bydd y Comisiwn yn ymgynghori â'r prif bleidiau gwleidyddol Seneddol ar faterion cyffredinol polisi cyn yr arolwg, yn unol â'i arfer arferol. Mae cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr y pleidiau hyn wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

¹ Bydd y rhain ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan y Comisiwn – www.comffin-cymru.gov.uk.

² Rheol 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

³ Rheol 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

⁴ Rheol 8 o Atodlen 2 i'r Ddeddf.

5. Wrth lunio'i gynigion cychwynnol ar gyfer ardaloedd penodol, bydd y Comisiwn yn ffurfio'i farn ei hun ac ni fydd yn ymgynghori â'r prif bleidiau gwleidyddol Seneddol, awdurdodau lleol nac unrhyw grwpiau neu bobl eraill â buddiant. Mae'r Comisiwn o'r farn y dylai fwrw ati ei hun i baratoi ei gynigion o'r holl wybodaeth sydd ar gael iddo. Caiff y cynigion felly eu llunio gan y Comisiwn o safbwynt annibyniaeth a didueddrwydd, ac ni ddylanwadir arnynt gan unrhyw safbwynt neu farn benodol. Ar ôl i'r cynigion gael eu cyhoeddi, mae'r gweithdrefnau statudol yn caniatáu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, a gall pleidiau gwleidyddol ac eraill fynegi eu barn i'r Comisiwn wedyn ar y ffiniau arfaethedig.

Pennod 3: Datblygu cynigion – gofynion a pholisi

Amrediad etholwyr statudol

1. Mae'r Ddeddf yn pennu nifer o Reolau yn Atodlen 2 sy'n berthnasol i ddatblygu cynigion ar gyfer etholaethau unigol yn fanwl⁵. Yr un fwyaf blaenllaw o'r rhain yw Rheol 2, sy'n amodi - ar wahân i bedwar eithriad penodedig - bod rhaid i bob etholaeth gael cyfanswm o etholwyr (ar ddyddiad yr arolwg) nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n uwch na 105% o 'gwota etholiadol y DU'. Cwota etholiadol y DU ar gyfer Arolwg 2013, i'r cyfanrif agosaf, yw 76,641.⁶
2. Felly, bydd rhaid i bob etholaeth yng Nghymru gael cyfanswm o etholwyr ar ddyddiad yr arolwg **nad yw'n llai na 72,810 ac nad yw'n uwch na 80,473** (yr amrediad etholwyr statudol).
3. Yr unig etholaethau penodedig nad ydynt dan reolaeth gweithredu cwota etholiadol y DU yw'r ddwy etholaeth ar Ynys Wyth yn Lloegr, ac Ynysoedd Erch ac Ynysoedd Shetland a Na h-Eileanan an Iar yn yr Alban.

Ffactorau statudol eraill

4. Mae Rheol 5 yn Atodlen 2 yn darparu ar gyfer nifer o ffactorau eraill y gall y Comisiwn eu hystyried wrth bennu map newydd o etholaethau ar gyfer Arolwg 2013, yn benodol:
 - ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, ffurf a hygyrchedd etholaeth;
 - ffiniau llywodraeth leol fel yr oeddent ar 6 Mai 2010 (gweler Pennod 2 paragraff 2 uchod);
 - ffiniau etholaethau presennol; ac,
 - unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i etholaethau.⁷

Ystyriaethau daearyddol arbennig

5. Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd ystyriaethau daearyddol arbennig a all effeithio ar y gallu i ffurfio etholaeth gyda chyfanswm etholwyr o fewn yr amrediad etholwyr statudol yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol fel mynyddoedd, bryniau,

⁵ Mae Atodlen 2 l'w chael yn llawn yn Atodiad C

⁶ Yn ôl Rheol 2(3) yn Atodlen 2 i'r Ddeddf, cwota etholiadol y DU yw: 45,678,175 (cyfanswm etholwyr y DU ar ddyddiad yr arolwg) wedi'i rannu â 596.

⁷ Ffactor arall – 'yr anghyfleusterau sydd ynghlwm wrth y cyfryw newidiadau' – hepgorir hwn yn benodol ar gyfer Arolwg 2013, ond gellir ei ystyried ar gyfer arolygon dilynol.

llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd, yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion diwylliant, hanes, economeg gymdeithasol ac agweddau posibl eraill ar ddaearyddiaeth anffisegol yn fwy tebygol o godi fel materion wrth ystyried y ffactor ar wahân yn ymwneud â 'chysylltiadau lleol'.

Ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol

6. Fe all y Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys ffiniau allanol awdurdodau unedol a'u ffiniau adrannau etholiadol, cymunedol neu wardiau cymunedol mewnol.
7. Er y bydd y Comisiwn yn dymuno ystyried ffiniau allanol awdurdodau unedol cyn belled ag y bo'n ymarferol, bydd yn angenrheidiol yn aml serch hynny i groesi'r ffiniau hyn er mwyn ffurfio etholaethau sy'n cydymffurfio â'r amrediad etholwyr statudol.
8. Mae'r Comisiwn yn defnyddio adrannau etholiadol fel y sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau.
9. Mae'r Comisiwn am geisio osgoi rhannu adrannau etholiadol rhwng etholaethau. Mae adrannau etholiadol yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac y mae dealltwriaeth dda ohonynt, ac yn gyffredinol maent yn arwydd o ardaloedd â chymuned fuddiant eang. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd amgylchiadau pan fydd yn ddymunol gwneud hynny, yn enwedig wrth ystyried yr holl ffactorau a nodwyd yn Rheolau 2 i 5.

Ffiniau etholaethau presennol

10. Mae'r Comisiwn yn bwriadu rhoi ystyriaeth yn gyffredinol i etholaethau presennol cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai etholaeth bresennol gael ei hystyried fel mater o drefn fel un 'wedi'i diogelu rhag newid', ar y sail yn unig fod ei nifer etholwyr eisoes yn dod o fewn yr amrediad statudol. Nid yw ychwaith yn golygu y gall etholaeth sydd ond fymryn y tu allan i'r amrediad statudol ddisgwyl o angenrheidrwydd gael ei newid fymryn yn unig er mwyn dod â hi o fewn yr amrediad statudol. Un o effeithiau gostwng nifer gyffredinol yr etholaethau a ddyrannwyd i Gymru, ynghyd â gofyniad yr amrediad etholwyr statudol, yw y gall fod angen newid yr etholaeth bresennol y mae ei chyfanswm etholwyr o fewn yr amrediad statudol, o ganlyniad i'r angen i greu etholaethau ymarferol.

Cydadwaith yr ystyriaethau

11. Polisi'r Comisiwn yw ystyried yr holl ffactorau a restrir yn Rheol 5 cyn belled ag y bo modd, yn amodol ar ystyriaeth bennaf yr amrediad etholwyr statudol o dan Rheol 2.
12. Nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn geisio cyflawni cyfanswm etholwyr mewn etholaethau sydd 'mor agos ag y bo modd' at gwota etholiadol y

DU. Nid yw'r Comisiwn ychwaith yn ystyried ei bod yn briodol gosod amcan polisi ar y cynllun statudol o geisio lleihau gwyrdd oddi wrth gwota etholiadol y DU. Byddai amcan o'r fath yn tansellio gallu'r Comisiwn i roi ystyriaeth briodol i ffactorau a restrwyd yn Rheol 5 yn unol â'r polisi ym mharagraff 11 uchod. Felly, i ddangos hynny, byddai'n well gan y Comisiwn nodi etholaeth ag amrywiant o 4%, dyweder, o gwota etholiadol y DU, ond un a oedd yn parchu cysylltiadau lleol, yn hytrach na dewis amgen a oedd yn creu etholaeth ag ond amrywiant o 1%, ond a fyddai'n rhannu ardaloedd cymunedol.

13. Cyn belled ag y bo modd, mae'r Comisiwn am greu etholaethau:

- o adrannau etholiadol sydd gerllaw ei gilydd; ac
- nad ydynt yn cynnwys 'rhannau datgysylltiedig', h.y. lle byddai'r unig gysylltiad ffisegol rhwng un rhan o'r etholaeth a'r gweddill yn golygu y byddai'n rhaid mynd drwy etholaeth wahanol.

Ffactorau na fydd y Comisiwn yn eu hystyried

Effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

14. Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Mae'n pwysleisio'n gadarn iawn nad yw ac na ddylai patrymau pleidleisio presennol a ffawd pleidiau gwleidyddol yn y dyfodol fod yn rhan o'i ystyriaethau yn ystod arolwg.

Ffiniau llywodraeth leol newydd

15. Y ffiniau llywodraeth leol y gall y Comisiwn eu hystyried – fel y nodwyd uchod – yw'r rheiny a oedd yn bodoli ar 6 Mai 2010. O ganlyniad, ni fydd y Comisiwn yn ystyried ffiniau newydd ar ôl y dyddiad hwnnw.

Newidiadau i nifer etholwyr ar ôl dyddiad yr arolwg

16. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio ar sail niferoedd yr etholwyr ar y cofrestru etholwyr ar 'dyddiad yr arolwg'. Nid yw'n gallu ystyried unrhyw achosion o dangofrestru neu or-gofrestru y gellir eu hawlio mewn rhai ardaloedd.

Enwi a dynodi etholaethau

17. Wrth wneud ei argymhellion, mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn bennu enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys rhyw lawer o arweiniad ar y pwyntiau hyn.

Enwi

18. Polisi'r Comisiwn ar enwi etholaethau yw, os yw'r etholaethau yn aros yn bur ddigymffwrdd, y dylid cadw enw presennol yr etholaeth fel arfer. Mewn achosion felly mae enwau etholaethau'n debygol o gael eu newid dim ond pan fydd rheswm da dros newid.
19. Ar gyfer etholaeth newydd, dylai'r enw fel arfer adlewyrchu enw'r awdurdod unedol neu'r awdurdodau unedol sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o fewn yr etholaeth. Fodd bynnag, os oes gwrthwynebiad i'r enw arfaethedig ac nad oes enw arall addas sy'n mynnu mwy o gefnogaeth yn lleol yn gyffredinol, bydd y Comisiwn fel arfer yn argymhell yr enw arall hwnnw. Gan mai ond un enw a ganiateir, ni fydd modd cael enw Cymraeg ac enw Saesneg arall ar gyfer etholaeth (neu fel arall). Gellir defnyddio un enw dwyieithog.
20. Mae'r Comisiwn yn mabwysiadu enwau pwyntiau'r cwmpawd pan nad oes enw mwy addas. Yn gyffredinol bydd y cyfeiriad pwynt cwmpawd a ddefnyddir yn ffurfio rhagddodiad mewn achosion lle mae enw etholaeth yn cyfeirio at ardal yr awdurdod lleol neu hen gyngor dosbarth, ond yn ffurfio ôl-ddodiad lle mae gweddiill yr enw yn cyfeirio at ganolfan boblogaeth. Mae enghreifftiau o etholaethau presennol sy'n dangos yr egwyddor hon yn cynnwys 'Carmarthen West and South Pembrokeshire' a 'Swansea West'.

Dynodi

21. Mae'r Ddeddf hefyd yn pennu gofyniad fod pob etholaeth yn cael ei dynodi naill ai'n 'county constituency' neu'n 'borough constituency'. Fel egwyddor gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn, lle mae etholaethau'n cynnwys mwy nag elfen wledig fach y dylid fel arfer eu dynodi'n 'county constituency'. Mewn achosion eraill dylid eu dynodi'n 'borough constituencies'. Caiff y dynodiad ei ôl-ddodi at enw'r etholaeth, a'i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer 'borough constituency' a CC ar gyfer 'county constituency'.
22. Yn gyffredinol mae'r dynodiad yn pennu pwy fydd yn gweithredu fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau Seneddol. Mae'r dynodiad hefyd yn pennu'r terfyn ar y swm y caniateir i ymgeisydd ei wario yn ystod etholiad Seneddol yn yr etholaeth. Mae'r terfyn ychydig yn is mewn etholaethau bwrdeistrefol, er mwyn adlewyrchu'r costau is o gynnal ymgyrch mewn ardal drefol, gywasgedig fel arfer.

Yr iaith Gymraeg

23. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ac mae'n croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.
24. Mae Adran 7 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn pennu gofyniad ar gyrff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, i feddu ar gynllun iaith

Gymraeg. Mae copi o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn i'w weld ar y wefan, ac mae ar gael o wneud cais.

25. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn cael eu darparu yn y Gwrandawiadau Cyhoeddus (Gweler Pennod 4).

Effaith y ddeddfwriaeth newydd

26. Fel y gellir gweld o'r disgrifiad uchod, mae Deddf 2011 wedi creu newidiadau arwyddocaol i'r ffordd y caiff etholaethau seneddol yng Nghymru eu ffurfio. Bydd cwota etholiadol y DU yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn cael eu gostwng o 40 i 30, a rhaid i bob etholaeth gael cyfanswm etholwyr nad yw'n llai na 95% ac nad yw'n fwy na 105% o'r cwota etholiadol. Bydd y canlyniad yn golygu newid sylfaenol i'r patrwm presennol o etholaethau ym mhob rhan o Gymru.
27. Dymuna'r Comisiwn ddweud yn glir o'r cychwyn cyntaf, ei bod yn anochel, o gofio'r nifer gymharol fach o etholwyr mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, y bydd rhai etholaethau mawr yn ddaearyddol. Hefyd, yn sgil y niferoedd cyfyngedig o etholwyr yn rhai o ardaloedd cymoedd y De, bydd etholaethau'n cael eu ffurfio a fydd yn cwmpasu mwy nag un cwm. Yn ogystal, mewn rhai ardaloedd ni fydd modd osgoi rhannu awdurdodau unedol. Bydd angen gwneud cyfaddawdau er mwyn creu patrwm o etholaethau ledled Cymru sy'n cydymffurfio â Rheolau'r ddeddfwriaeth newydd. Mae'n bwysig deall y bydd hyd yn oed newidiadau bach i un etholaeth yn effeithio yn sgîl hynny ar ardaloedd cyfagos, ac ar Gymru gyfan o bosibl.

Pennod 4: Datblygu cynigion – y broses

1. Cafodd y Comisiwn ffigurau niferoedd yr etholwyr naill ai'n uniongyrchol gan Swyddogion Cofrestru Etholwyr mewn awdurdodau lleol, neu'n anuniongyrchol drwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar ôl derbyn yr holl ffigurau, cytunodd y pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol ar gwota etholiadol y DU a nifer yr etholaethau i'w dyrannu i bob rhan o'r DU (gweler Pennod 2 a pharagraff 3 a Phennod 3 paragraff 2 ar gyfer y ffigurau gwirioneddol sydd wedi'u cytuno ar gyfer Arolwg 2013).
2. Mae natur orfodol Rheol 2 yn y ddeddfwriaeth – yn ymwneud â'r amrediad etholwyr statudol ar gyfer etholaethau – yn golygu y bydd yn angenrheidiol i etholaethau groesi nifer o ffiniau awdurdodau unedol allanol.

Cyhoeddi cynigion cychwynnol

3. Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar ei gynigion cychwynnol, bydd yn cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan, ynghyd â gwybodaeth fanwl am sut a pha bryd y gellir cyflwyno barnau ar y cynigion hynny. Ar yr un pryd, bydd yn anfon copïau caled o'r cynigion i 'fannau cadw' amrywiol yn lleol, lle gall y cyhoedd weld y cynigion.
4. Swyddfeydd yr awdurdod lleol perthnasol fel arfer fydd y manau cadw lle gall y cyhoedd archwilio'r cynigion, er y gellir defnyddio lleoedd eraill fel llyfrgelloedd cyhoeddus, yn enwedig yn yr ardaloedd lle ceir etholaethau mawr yn ddaearyddol. Bydd rhestr lawn o fannau cadw yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn ar yr un pryd â'r cynigion.
5. Yn ychwanegol at y cynigion cychwynnol a'i adroddiad ar y cynigion hynny, er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall y cynigion yn well, bydd y Comisiwn yn trefnu i roi ar gadw ac yn rhoi ar ei wefan fapiau manwl sy'n dangos, ymysg gwybodaeth arall, enw, dynodiad a ffin pob etholaeth arfaethedig.
6. Er mwyn hysbysebu'r cynigion cychwynnol, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi hysbysiad o'r cynigion yn y papurau newydd cenedlaethol a lleol. Bydd y Comisiwn hefyd yn anfon copïau o'i gynigion at yr holl bartïon â buddiant (er enghraifft, awdurdodau unedol, Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad). Bydd awdurdodau unedol a llyfrgell Tŷ'r Cyffredin hefyd yn derbyn copïau o'r mapiau manwl. Cyn i'r wybodaeth gael ei hanfon allan, bydd y Comisiwn hefyd yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ynglŷn â'r cynigion cychwynnol, y cyfnod derbyn cynrychiolaethau a gweithdrefnau dilynol arolwg.

7. Mae copïau o'r cynigion cychwynnol, adroddiadau a mapiau cysylltiedig, a'r holl gylchlythyrau a'r datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, yn cael eu rhoi ar ei wefan – www.comffin-cymru.gov.uk.

Cyfnod ymgynghori cychwynnol

8. Mae'r fframwaith statudol newydd yn cyflwyno cryn newid yn y broses ymgynghori. Mae Arolwg 2013 yn cael ei gynnal o dan weithdrefn newydd sy'n dibynnu ar gyfuniad o gynrychiolaethau ysgrifenedig a chynrychiolaethau llafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Mae'r hen ddull o gynnal ymchwiliadau cyhoeddus wedi'i ddi-ddymu a'i ddisodli gan wrandawiadau cyhoeddus byrrach. Nid ymchwiliadau, cyfarfodydd cyhoeddus na dadleuon yw'r gwrandawiadau hyn, ond maent yno i gynig cyfle i'r Comisiwn esbonio ei gynigion cychwynnol ac i'r cyhoedd roi eu barnau ar y cynigion hyn.
9. Mae'r Comisiwn yn rhoi llawn gymaint o bwys ar gynrychiolaethau a wneir yn ysgrifenedig â'r rheiny a wneir ar lafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Mae angen rheoli'r dull o gynnal gwrandawiadau'n ofalus, gan y cânt eu cyfyngu'n llym gan statud i bara nid mwy na dau ddiwrnod yr un. Fodd bynnag, os nad yw'n bosibl i rywun gwblhau cyflwyniadau llafar o fewn yr amser a ganiateir, gellir gwneud cynrychiolaethau o hyd yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod ymgynghori 12 wythnos.
10. Gofynnir i'r rheiny sy'n rhoi eu barnau - ar lafar neu'n ysgrifenedig - i ddweud a ydynt yn cymeradwyo cynigion y Comisiwn, neu'n eu gwrthwynebu. Yn benodol, cynghorir gwrthwynebwyr i ddweud beth maent yn ei gynig yn lle cynigion y Comisiwn. Mae gwrthwynebiad gyda gwrthgynnig ymarferol i gyd-fynd ag ef yn debygol o gael fwy o ystyriaeth na datganiad o wrthwynebiad syml. Yn hyn o beth – ac yn enwedig yng ngolau pwysigrwydd Rheol 2 (amrediad etholwyr statudol) – bydd gwrthgynnig yn amlinellu cyfansoddiad pob etholaeth mewn ardal yn cael ei weld yn gyffredinol fel un sy'n fwy darbwyllog na chynnig ar gyfer cyfansoddiad un etholaeth yn unig nad yw'n mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau canlyniadol ar ffigurau etholwyr etholaethau eraill.

Cynrychiolaethau ysgrifenedig

11. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a wneir iddo o fewn cyfnod statudol o 12 wythnos yn dechrau gyda chyhoeddi'r cynigion cychwynnol. Bydd manylion ar sut i wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig, gan gynnwys y dyddiad olaf ar gyfer derbyn cynrychiolaethau, yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol eu hunain. Mae'n hanfodol bod cynrychiolaethau yn cael eu cyflwyno mewn da bryd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori dynodedig. **Ni fydd cynrychiolaethau a dderbynnir cyn neu ar ôl y cyfnod hwn yn cael eu hystyried.**

Gwrandawiadau cyhoeddus

12. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gynnal o leiaf dau ac nid mwy na phump o wrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y gwrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru yn ymwneud a chynigion ar gyfer Cymru, a rhyngddynt byddant yn cwmpasu Cymru gyfan.
13. Bydd manylion lleoliadau a dyddiadau ar gyfer y gwrandawiadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn yn fuan, a'u cyhoeddi eto ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol eu hunain.
14. Diben gwrandawriad cyhoeddus yw rhoi cyfle i bobl wneud cynrychiolaethau ynglŷn ag unrhyw un o gynigion cychwynnol y Comisiwn, gan gynnwys enwi etholaethau a chyflwyno unrhyw wrthgynigion. Yn wahanol i'r ymchwiliadau lleol yn y gorffennol, nid diben gwrandawriad cyhoeddus o dan y cynllun statudol newydd yw canolbwyntio'n helaeth ar sylwadau am unrhyw wrthgynigion y gall pobl eraill eu rhoi gerbron, gan y gellir gwneud hyn yn yr ail gyfnod ymgynghori (gweler paragraff 22 isod).
15. Mae cyflwyniadau ym mhob gwrandawriad cyhoeddus yn debygol o ganolbwyntio ar gynigion ar gyfer yr ardal sydd agosaf at leoliad y gwrandawriad, ond nid yw hyn yn golygu na ellir gwneud cyflwyniad sy'n ymwneud ag unrhyw ran o Gymru.
16. Caiff pob gwrandawriad ei gadeirio gan Gomisiynydd Cynorthwyol annibynnol wedi'i ddewis gan y Comisiwn, sy'n rheoli'r trefniadau, a gall ofyn cwestiynau - neu ganiatáu i rywun arall ofyn cwestiynau - i unigolyn sy'n rhoi cyflwyniad. Yn gyffredinol dylid gofyn cwestiynau drwy'r Cadeirydd a dylai fel arfer ofyn am esboniad yn hytrach na cheisio 'croesholi'r' siaradwr ar ei farnau.
17. Pan fydd manylion dyddiadau a lleoliadau'r gwrandawiadau cyhoeddus wedi'u cyhoeddi, caiff unigolion sy'n dymuno gwneud cynrychiolaeth lafar mewn un o'r gwrandawiadau eu hannog i hysbysu'r Comisiwn o flaen llaw. Bydd manylion am sut i ofyn am slot siarad mewn gwrandawriad cyhoeddus yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cynigion cychwynnol. Bydd y Comisiwn yn ymdrechu i ddarparu ar gyfer ceisiadau unigol am amser neu ddyddiad penodol, ond ni all fod yn sicr y bydd hyn yn bosibl.
18. Mae hyd slotiau siarad yn debygol o fod yn gyfyngedig iawn, felly bydd angen i gynrychiolaethau fod yn glir, yn gryno ac yn cynnwys ffocws. Hefyd, bydd angen i'r rheiny sy'n bwriadu siarad mewn gwrandawriad cyhoeddus fod yn rhesymol o hyblyg ynglŷn â phryd yn union y gofynnir iddynt ddechrau a gorffen eu cyflwyniad.
19. Y Comisiynydd Cynorthwyol sy'n cadeirio'r gwrandawriad cyhoeddus fydd yn penderfynu pa bryd i alw ar siaradwyr a faint o amser i'w neilltuo i bob un ohonynt. Er mwyn cynorthwyo'r Comisiynydd Cynorthwyol gyda hyn, byddai'n ddefnyddiol pe

gellid darparu crynodeb neu amlinelliad o'r pwyntiau y mae'r siaradwr yn dymuno'u gwneud o flaen llaw.

20. Bydd y Comisiwn yn mynnu ei fod yn cael ei hysbysu o flaen llaw am unrhyw gyfarpar gweledol sydd i'w ddefnyddio yn ystod gwneud cynrychiolaethau llafar mewn gwrandawiadau cyhoeddus, a bod y cyfarpar hwnnw'n cael ei gyflenwi o flaen llaw. Bydd manylion y gweithdrefnau sydd i'w dilyn yn cael eu cyhoeddi cyn y gwrandawiadau cyhoeddus.
21. Bydd trawsgrifiad gair-am-air yn cael ei wneud o'r holl gyflwyniadau a fydd yn cael eu gwneud mewn gwrandawiadau cyhoeddus. Cyhoeddir y trawsgrifiadau gyda chynrychiolaethau eraill ar wefan y Comisiwn.

Cyfnod ymgynghori eilaidd

22. Cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr ymgynghoriad 12-wythnos cychwynnol ar gynigion cychwynnol y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau a dderbyniodd ar ei wefan (gan gynnwys trawsgrifiadau o'r gwrandawiadau cyhoeddus) yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd copi caled yn cael ei roi ar gadw ar yr un pryd mewn o leiaf un lleoliad ym mhob etholaeth arfaethedig.
23. Ar ôl i'r cynrychiolaethau gael eu cyhoeddi, mae cyfnod statudol pellach o bedair wythnos, ac yn ystod hwnnw gall pobl gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Comisiwn ar y cynrychiolaethau hynny a dderbyniodd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, er enghraifft, yn herio neu'n cefnogi haeriadau a wnaed mewn cynrychiolaeth. Nid oes unrhyw wrandawiadau cyhoeddus ar hyn o bryd.
24. Ar ôl eu cyfieithu, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ar ei wefan yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a dderbyniodd yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd pedair wythnos.

Datblygu cynigion diwygiedig

25. Bydd y comisiynwyr cynorthwyol yn ystyried yr holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a dderbyniwyd a'r cynrychiolaethau llafar a wnaed mewn gwrandawiadau cyhoeddus yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, ynghyd â'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori eilaidd pedair wythnos. Bydd comisiynydd cynorthwyol 'arweiniol' wedi'i enwebu yn ysgrifennu adroddiad dros y Comisiwn wedyn, yn crynhoi ac yn ystyried y cynrychiolaethau ac yn argymhell a ddylid adolygu'r cynigion yng ngholau'r cynrychiolaethau hynny - ac os dylid, sut. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr adroddiad wedyn ac yn penderfynu pa un a ddylid gwneud diwygiadau i'w gynigion cychwynnol, ac i ba raddau.
26. Os caiff y cynigion eu diwygio, bydd y Comisiwn yn mynd ati wedyn i gyhoeddi hysbysiad ac adroddiad cynigion diwygiedig, fel y gwnaeth ar gyfer y cynigion cychwynnol. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cyfnod pellach o wyth wythnos ar gyfer gwneud cynrychiolaethau ysgrifenedig i'r Comisiwn ar y cynigion diwygiedig.

Nid oes unrhyw wrandawiadau cyhoeddus ar hyn o bryd; ni fydd y cyfnod pedair wythnos ar gyfer cynnig sylwadau ar gynrychiolaethau pobl eraill yn cael ei ailadrodd ychwaith.

27. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi'r holl gynrychiolaethau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wyth wythnos ar gynigion diwygiedig ar yr un pryd â chyhoeddi'r Argymhellion Terfynol.

Pwysigrwydd cyfranogi

28. Mae'r Comisiwn yn dymuno annog pobl neu sefydliadau â diddordeb yn y cynigion ar gyfer eu hardal i wneud cynrychiolaethau ysgrifenedig neu lafar i'r Comisiwn, boed hynny o blaid y cynigion neu'n eu gwrthwynebu.
29. Un broblem benodol fydd cael y cyfryw ymatebion ar yr amser iawn. Er enghraifft, gall pobl nad ydynt yn dangos eu cefnogaeth i'r cynigion cychwynnol weld bod y Comisiwn, yng ngolau cynrychiolaethau a dderbyniwyd gan bobl eraill, yn cyhoeddi cynigion diwygiedig neu argymhellion terfynol nad ydynt yn eu cefnogi. Mae'n bwysig felly yn yr enghraifft hon y dylai pobl sy'n cefnogi'r cynigion cychwynnol ddweud hynny yn y cyfnod ymgynghori cyntaf.
30. Mae cyfranogi'n llawn ac yn amserol yn cynorthwyo'r Comisiwn yn y pen draw i fesur barn leol ar ei gynigion yn fwy cywir, ac o ganlyniad mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd ei argymhellion terfynol yn dderbyniol yn gyffredinol i fwyafrif y rheiny y bydd yn rhaid iddynt fyw a gweithio gyda hwy.

Argymhellion terfynol ac adroddiad

31. Bydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw gynrychiolaethau ysgrifenedig yn ymwneud â'r cynigion diwygiedig a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori wyth wythnos, y cyfeirir ato ym mharagraff 26 uchod, a bydd yn gwneud ei benderfyniadau terfynol ynghylch a oes angen gwneud addasiadau pellach yng ngolau'r cynrychiolaethau hynny.
32. Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar ei argymhellion terfynol ar gyfer Cymru, bydd yn mynd ati wedyn i ddrafftio a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig ffurfiol i'r Llywodraeth. Bydd yr adroddiad, a fydd yn cael ei gyhoeddi hefyd, yn cynnwys disgrifiad o'r arolwg, disgrifiad testunol o'r holl argymhellion terfynol, a set o fapiau i ddangos y ffiniau presennol a'r ffiniau a gynigir gan yr argymhellion terfynol.
33. Bydd cyflwyno'r adroddiad terfynol ffurfiol yn cwblhau proses yr arolwg. Cyfrifoldeb Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Senedd yw'r weithdrefn i weithredu etholaethau newydd.

Pennod 5: Ar ôl yr adroddiad terfynol

Gweithdrefn Seneddol

1. Ar ôl i'r Llywodraeth dderbyn adroddiad terfynol y Comisiwn, rhaid iddo ei gyflwyno gerbron y Senedd.
2. Lle bydd adroddiad terfynol wedi'i gyflwyno gan unrhyw un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig yn argymhell newidiadau i etholaethau presennol, mae'n rhaid i'r Llywodraeth gyflwyno drafft o Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd hefyd, yn rhoi grym i'r argymhellion yn yr adroddiad(au). Wrth baratoi'r drafft hwnnw, ni all y Llywodraeth addasu argymhellion unrhyw un o'r Comisiynau Ffiniau Seneddol, oni bai y gofynnwyd iddo wneud hynny'n benodol (yn ysgrifenedig a chan nodi rhesymau) gan y Comisiwn Ffiniau Seneddol perthnasol.
3. Rhaid i'r Gorchymyn drafft gael ei drafod a'i gymeradwyo (neu'i wrthod) gan ddau Dŷ'r Senedd. Os na chaiff y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor drafft ei gymeradwyo, gall y Llywodraeth ddiwygio'r drafft wedyn a chyflwyno drafft diwygiedig gerbron y Senedd i'w gymeradwyo.
4. Pan fydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor wedi'i gymeradwyo gan y Senedd, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth ei gyflwyno iddo gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor. Ar ôl i'r Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gael ei wneud, bydd yr etholaethau newydd yn dod i rym yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf. Mae'n rhaid i unrhyw isetholiadau a gynhelir yn y cyfamser fod wedi'u cynnal ar sail yr hen etholaethau (presennol). Ni ellir codi amheuaeth ynghylch dilysrwydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor, ar ôl ei wneud, mewn unrhyw achos cyfreithiol.

Pennod 6: Casgliad

1. Gobeithir y bydd y wybodaeth a'r esboniadau a roddir yn y llyfryn hwn yn cyflawni'r diben a nodwyd yn y Cyflwyniad, gan helpu i esbonio'r broses a'r polisi ar gyfer partïon â buddiant ac annog eu cyfranogiad gwybodus, gan hynny'n helpu'r Comisiwn i gyflawni'i waith.

ATODIAD A

CYFANSODDIAD Y COMISIWN

Yn unol ag Atodlen 1 i Ddeddf Etholaethau Seneddol 1986.

1. Cadeirydd

Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd pob un o'r Pedwar Comisiwn Ffiniau. Mae hwn yn benodiad yn rhinwedd ei swydd, ac nid yw'r Llefarydd yn gyffredinol yn chwarae unrhyw ran yng ngwaith gwirioneddol y Comisiwn.

2. Tri aelod arall

i.) Mae'r dirprwy gadeirydd, sy'n llywyddu yng nghyfarfodydd y Comisiwn, yn farnwr yr Uchel Lys a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor.

ii.) Penodwyd dau aelod arall ar y cyd gan Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Gellir gweld aelodaeth bresennol y Comisiwn ar y wefan

3. Dau asesydd (ar gael i roi cyngor a chymorth technegol fel bo'r angen)

i.) Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr.

ii.) Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans.

4. Ysgrifennydd

Penodir yr ysgrifennydd ar y cyd gan Arglwydd Lywydd y Cyngor ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

5. Comisiynwyr Cynorthwyol

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, ar gais y Comisiwn, benodi un neu fwy o Gomisiynwyr cynorthwyol i gynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni'i swyddogaethau. Gall Comisiynwyr Cynorthwyol a benodir, er enghraifft, weithredu fel Cadeiryddion yn y gwrandawiadau cyhoeddus. Fel arfer bydd Comisiynydd cynorthwyol yn unigolyn annibynnol â chymhwyster cyfreithiol.

ATODIAD B

CYFEIRIADAU A RHIFAU FFÔN Y COMISIYNAU ERAILL

Seneddol

The Boundary Commission for England

2nd Floor
35 Great Smith Street
London
SW1P 3BQ

Ffôn: (020) 7276 1102

E-bost: information@bcommengland.x.gsi.gov.uk
Gwefan: www.boundarycommissionforengland.org.uk

The Boundary Commission for Scotland

Thistle House
91 Haymarket Terrace
Edinburgh
EH12 5HD

Ffôn: (0131) 538 7510
Ffacs: (0131) 538 7511

E-bost: bcs@scottishboundaries.gov.uk
Gwefan: www.bcomm-scotland.gov.uk

The Boundary Commission for Northern Ireland

Forestview
Purdy's Lane
Newtownbreda
Belfast
BT8 7AR

Ffôn: (028) 9069 4800
Ffacs: (028) 9069 4801

E-bost: bcni@belfast.org.uk
Gwefan: www.boundarycommission.org.uk

Llywodraeth Leol

Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru

Tŷ Caradog (Llawr 1)
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: (029) 2039 5031

Ffacs: (029) 2039 5250

E-bost: cfill-cymru@cymru.gsi.gov.uk

Cyfeiriad rhyngryd: www.cfill.cymru.gov.uk

Local Government Boundary Commission for England

Layden House
76-86 Turnmill Street
London
EC1M 5LG

Ffôn: (020) 7664 8534

Ffacs: (020) 7296 6227

E-bost: reviews@lgbce.org.uk

Gwefan: www.lgbce.org.uk

Local Government Boundary Commission for Scotland

Thistle House
91 Haymarket Terrace
Edinburgh
EH12 5HD

Ffôn: (0131) 538 7510

Ffacs: (0131) 538 7511

E-bost: lgbcs@scottishboundaries.gov.uk

Gwefan: www.lgbc-scotland.gov.uk

Local Government Boundaries Commissioner for Northern Ireland

Ddim yn weithredol ar hyn o bryd.

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Yr Ombwdsmon Seneddol

Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Millbank Tower

Millbank

London

SW1P 4QP

Ffôn: 0345 015 4033

Ffacs: 0300 061 4000

E-bost: phso.enquiries@ombudsman.org.uk

Gwefan: www.ombudsman.org.uk

ATODIAD C

RHEOLAU AR GYFER AILDDOSBARTHU SEDDI

Nifer yr etholaethau

1 Nifer yr etholaethau yn y Deyrnas Unedig fydd 600.

Etholwyr i bob etholaeth

2 (1) Bydd nifer yr etholwyr mewn unrhyw etholaeth -
(a) ddim llai na 95% o gwota etholiadol y Deyrnas Unedig, a
(b) ddim uwch na 105% o'r cwota hwnnw.

(2) Mae'r rheol hon yn amodol ar reolau 4(2), 6(3) a 7.

(3) Yn yr Atodlen hon mae "cwota etholiadol y Deyrnas Unedig" yn golygu -

E/596

Ile mae E yn sefyll am etholwyr y Deyrnas Unedig llai nifer yr etholwyr yn yr etholaethau y sonnir amdanynt yn rheol 6.

Dyrannu etholaethau i rannau o'r Deyrnas Unedig

3 (1) Bydd pob etholaeth yn gyfan gwbl yn un o bedair rhan y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon).

(2) Caiff nifer yr etholaethau ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig ei phennu yn unol â'r dull dyrannu a amlinellir yn rheol 8.

Arwynebedd etholaethau

4 (1) Ni fydd gan etholaeth arwynebedd fwy na 13,000 cilomedr sgwâr.

(2) Nid oes raid i etholaeth gydymffurfio â rheol 2(1)(a) -

(a) os oes ganddi arwynebedd fwy na 12,000 cilomedr sgwâr, a

- (b) mae'r Comisiwn Ffiniau dan sylw yn fodlon nad yw'n rhesymol bosibl i'r etholaeth gydymffurfio â'r rheol honno.

Ffactorau

- 5 (1) Gall Comisiwn Ffiniau ystyried, os ac i'r graddau y gwêl yn dda -
- (a) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn arbennig maint, siâp a hygyrchedd etholaeth,
 - (b) ffiniau llywodraeth leol fel y maent yn bodoli ar ddiwrnod cyffredin ethol cyngorwyr mwyaf diweddar cyn dyddiad yr arolwg.
 - (c) ffiniau etholaethau presennol;
 - (d) unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri mewn etholaethau;
 - (e) yr anghyfleusterau sydd ynghlwm wrth y cyfryw newidiadau.⁸
- (2) Gall y Comisiwn Ffiniau i Loegr ystyried, os ac i'r graddau y gwêl yn dda, ffiniau'r rhanbarthau etholiadol a bennir yn Atodlen 1 i Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 (gan anwybyddu paragraff 2(2) o'r Atodlen honno a'r cyfeiriadau at Gibraltar) fel y mae mewn grym ar ddiwrnod cyffredin ethol cyngorwyr mwyaf diweddar cyn dyddiad yr arolwg.
- (3) Mae'r rheol hon mewn grym yn amodol ar reolau 2 a 4.

Etholaethau gwarchoddedig

- 6 (1) Bydd dwy etholaeth ar Ynys Wyth.
- (2) Bydd y canlynol yn parhau -
- (a) etholaeth o'r enw Ynysoedd Erch a Shetland, yn cynnwys ardaloedd Cyngor Ynysoedd Erch a Chyngor Ynysoedd Shetland;
 - (b) etholaeth o'r enw Na h-Eileanan an Iar, yn cynnwys ardal Comhairle nan Eilean Siar.
- (3) Nid yw Rheol 2 yn gymwys i'r etholaethau hyn.

⁸ Nid yw Rheol 5(1)(e) yn gymwys i adroddiad a gyflwynir cyn 1 Hydref 2013, fel a bennir gan adran 11(2) o Ddeddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011

Gogledd Iwerddon

